**Dr Chris Llewelyn**
Prif Weithredwr / Chief Executive

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
**Welsh Local Government Association**

| **Un Rhodfa'r Gamlas** | **One Canal Parade** |
| --- | --- |
| Heol Dumballs | Dumballs Road |
| Caerdydd | Cardiff |
| CF10 5BF | CF10 5BF |
| **Ffôn:** 029 2046 8600 | **Tel:** 029 2046 8600 |

Ein Cyf / Our Ref: AM/CT

Dyddiad / Date: 28 Gorffennaf 2025

Gofynnwch am / Please ask for: Jon Rae

Llinell uniongyrchol / Direct line: 07979018007

E-bost / Email: jon.rae@wlga.gov.uk

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd, Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1SN

***E-bost***

Annwyl Carolyn,

**Deiseb P-06-1522 Cynnal uwchgynhadledd i gyflymu buddsoddiad cynaliadwy a moesegol gan bensiynau sector cyhoeddus**

Mae CLlLC yn cefnogi stiwardiaeth foesegol o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, er bod ein rôl yn ymylol i rôl y cronfeydd pensiynau eu hunain a Phartneriaeth Pensiynau Cymru. Fel y gwyddoch, mae 8 cronfa bensiynau yng Nghymru sy'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac sy'n cael eu gweinyddu gan 8 awdurdod lleol. Yr awdurdod cynnal ar gyfer Partneriaeth Pensiynau Cymru yw Cyngor Sir Gâr a'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu yw'r corff sy'n gwneud penderfyniadau.

Fodd bynnag, rydym yn hyrwyddo strategaethau sy'n ystyried materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ochr yn ochr â dadansoddiad ariannol traddodiadol. Yn 2023, cynhaliom seminar yng Nghaerdydd i ddeall y materion hyn yn well o safbwynt y sector, a'r Cadeirydd oedd y Cynghorydd Chris Weaver, sy'n Gadeirydd pwyllgor Cronfa Bensiynau Caerdydd a'r Fro. Y Cynghorydd Weaver yw cynrychiolydd CLlLC ar Fwrdd Ymgynghorol y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol hefyd.

Sefydlwyd y Bwrdd dan Adran 7 Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 110-113. Ei ddiben yw annog arfer

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.
Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language. Use of either language will not lead to a delay.

wlga.cymru

wlga.wales

@WelshLGA

gorau, bod yn fwy tryloyw a chydlynu materion technegol a rhai safonol. Mae'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a budd-ddeiliaid eraill yn cynnwys y Rheoleiddiwr Pensiynau.

Mae newidiadau ar y gweill i'r trefniadau cyfuno sy'n cael eu harwain gan Drysorlys y DU, yn canolbwyntio ar gryfhau'r potensial ar gyfer buddsoddi a llywodraethu. Byddem yn hapus i ddarparu mwy o wybodaeth am hynny i aelodau'r Senedd pe bai'n ddefnyddiol.

Yn gywir,



**Y Cynghorydd Andrew Morgan OBE**
Arweinydd CLlLC

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.
Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language. Use of either language will not lead to a delay.

wlga.cymru

wlga.wales

@WelshLGA